

Grŵp Cyswilt Pen Llŷn a'r Sarnau

Cofnodion cyfarfod Grŵp Cyswilt Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau a gynhaliwyd ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog, 12 Medi, 2018 am 7pm.

Yn bresennol

Owain Wyn (OW)	Awdurdod Lleol - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Cadeirydd)
Alison Hargrave (AH)	Swyddog ACA PLAS
Dafydd Roberts (RO)	AP - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
Bill Miller-Jones (BMJ)	Arall - Deifiwr a pherchennog cwch
Rowland Sharp (RS)	AP – Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Rhys Jones (RJ)	AP – Cyngor Gwynedd (CG)
Daniel Griffiths (DG)	Cadwch Gymru'n Daclus (CGD)
Cyng. Ray Quant (RQ)	Awdurod Lleol

(PLAS – Pen Llŷn a'r Sarnau)

(AP - Awdurdod Perthnasol)

Cyflwyniad

Croesawodd OW bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd Daniel Griffiths, yr aelod newydd, o CGD. Roedd DG wedi cymryd lle Lee Oliver.

1 Ymddiheuriadau

Freya Bentham	Awdurdod Lleol - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Nia Jones	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru
Bob Lowe	Hamdden
Siôn Williams	Pysgota Masnachol
Jilly Whipp	Bywyd Gwyllt
Catrin Glyn	Cyngor Gwynedd
Molly Lovatt	Cyfoeth Naturiol Cymru

2 Cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol

Derbyniwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

3 Materion yn Codi

Rhif y Weithred	Gweithred	Nodiadau
1	AH i anfon llythyr o ddiolch at y Cyng. Caerwyn Roberts ar ran y grŵp.	Gweithred wedi'i chwblhau

Rhif y Weithred	Gweithred	Nodiadau
2	AH i newid cyfenw Aeron Williams ar dudalen 2 a'i ail-osod ar wefan PLAS.	Gweithred wedi'i chwblhau
3	AH i anfon y cylch gorchwyl a rhestr o'r aelodau i'r grŵp.	Gweithred wedi'i chwblhau
4	RS i anfon copi o gyflwyniad a phoster y maelgwn at AH	Gweithred wedi'i chwblhau
5	AH i ddsbarthu'r cyflwyniad a'r poster am y Maelgwn	Gweithred wedi'i chwblhau
6	RS i anfon gwybodaeth berthnasol am y maelgwn at AH a MH	Gweithred wedi'i chwblhau
7	AH a MH i ddsbarthu a phostio unrhyw wybodaeth berthnasol am y maelgwn ar y cyfryngau cymdeithasol	Gweithred wedi'i chwblhau
8	AH i anfon adroddiad lefel safle PLAS at y grŵp unwaith y bydd ar gael.	Gweithred wedi'i chwblhau
9	AH i edrych ar fater tarfu ar loi y morloi.	Eitem ar y rhaglen.
10	AH i drefnu cyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt.	Gweithred wedi'i chwblhau

4 Crynodeb Rheoli Safle

Rhoddodd AH gyflwyniad oedd yn amlinellu'r gwaith a wnaed o fis Ebrill 2016 hyd mis Mawrth 2018 yn nodi mai mis Mawrth 2018 fyddai'n pennu diwedd y cylch ariannu cyfredol.

Roedd y rhaglen waith o fis Ebrill 2016 hyd Mawrth 2018 yn cynnwys:

- Prosiect Morwellt Porthdinllaen
- Prosiect Lagŵn Morfa Gwyllt
- Gwyllo Dolffiniaid
- Cylchgrawn
- Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn
 - o Cod Morol
 - o Prosiect 'Sbwriel Cricieth

Eglurodd AH fod codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o holl agweddau'r gwaith. Ceir rhagor o fanylion ar y prosiectau unigol isod.

Cynhyrchwyd llawer o adroddiadau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, fe'u ceir ar wefan PLAS http://www.penllynarsarnau.co.uk/sac_publications.aspx?lang=welsh. Cyhoeddir llawer o wybodaeth gyffredinol am yr ACA a chyhoeddir y gwaith yn gyson ar safle cyfryngau cymdeithasol Facebook PLAS (Pen Llŷn a'r Sarnau) a Twitter (@ACA_PLAS_SAC).

4.1 Prosiect Morwellt Porthdinllaen

Eglurodd AH bod Prosiect Morwellt Porthdinllaen yn canolbwyntio ar dair prif elfen:

- Effaith angorfeydd yn yr harbwr mewnol

- Effaith angorfeydd yn yr harbwr allanol
- Effaith cerbydau ar y morwellt

Gwaith wedi'i gwblhau:

- Cynhaliwyd nifer o astudiaethau ac arolygon
- Cynhyrchwyd nifer o adroddiadau
- Datblygwyd rhaglen fonitro gyda CNC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Cynhaliwyd cynhadledd ryngwladol yn Nant Gwrtheyrn ym mis Hydref 2016 a daeth 200 o wyddonwyr yno o bedwar ban byd.
- Gwneud cysylltiadau â lleoliadau eraill

Harbwr Mewnol

- Cynhaliwyd astudiaeth ar effaith cerbydau ar y morwellt
- Mae angorion Helix wedi'u harchebu a bydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn eu treialu y flwyddyn hon
- Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gweithio ar agweddau cyfreithiol
- Mae'r angorfeydd dros ben wedi eu tynnu o'r harbwr mewnol
- Angorfeydd 'trott' wedi cael eu cyfnewid am flociau concriid

Yr Harbwr Allanol

- Cynhyrchwyd adroddiad ar yr angorfeydd allanol

4.2 Prosiect Lagŵn Morfa Gwyllt

Eglurodd AH i'r prosiect gael ei sefydlu er mwyn asesu ac i ddelio â'r materion isod:

- Baw ci
- Ysbwriel
- Sathru
- Ffensys a giataiu wedi torri
- Diffyg data monitro

Gwaith wedi'i gwblhau:

- Ymweliad safle i sicrhau fod yr wybodaeth yn gywir
- Cyfarfod â thîm morwrol CG a CNC.
- Lluniwyd adroddiad oedd yn cyflwyno'r morlyn (lagŵn) ac yn amlinellu'r problemau a'r atebion posib
- Cytuno fod y giât newydd wedi helpu llehiau difrifoldeb y problemau
- Gweithred - cadw llygad ar y sefyllfa

4.3 Gwylio Dolffiniaid

Eglurodd AH mai diben Gwylio Dolffiniaid oedd:

- Ymgysylltu â'r gymuned leol
- Monitro cydymffurfiaeth gyda Chod Morol newydd Gwynedd
- Cynorthwyo i hysbysu rheolwyr y safle am famaliaid morol

Gwaith wedi'i gwblhau:

- Cytunwyd ar Abersoch fel lleoliad
- Lluniwyd adroddiad cychwynnol
- Cynhyrchwyd asesiad risg
- Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant i wirfoddolwyr yn 2016 ac yn 2017
- Cynhaliwyd gweithgaredd Gwylio Dolffiniaid dros yr haf yn 2016 a 2017

- Dychwelwyd arolygon 2016 a 2017
- Canlyniadau wedi'u dadansoddi ac adroddiad terfynol wedi'i gynhyrchu

4.4 Cylchgrawn PLAS

Eglurodd AH mai diben y cylchgrawn oedd:

- Hyrwyddo'r ACA
- Rhoi diweddariad ar yr holl brosiectau sy'n cael eu cynnal
- Codi ymwybyddiaeth ac ennyn diddordeb yn yr amgylchedd morol

Gwaith wedi'i gwblhau:

- Cylchgrawn wedi'i gwblhau - copi yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Teitl - O Dan y Don (penderfynwyd drwy gystadleuaeth)
- Bydd lansiad swyddogol, dyddiad i'w gadarnhau

4.5 Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn

Eglurodd AH fod y prosiect yn:

- Brosiect ar y cyd rhwng yr ACA a Chymdeithas Pysgotwyr Cymru ac eraill
- Gweithio gyda'r diwydiant pysgota lleol i ddatblygu model o gyd-reoli'r amgylchedd morol o amgylch Llŷn.
- Gweithredu rhai prosiectau i arddangos y model

Eglurodd AH hefyd fod nifer o adroddiadau wedi eu llunio ac roeddent ar gael ar wefan PLAS.

4.6 Prosiect 'Sbwriel Cricieth

Eglurodd AH bod y prosiect yn canolbwyntio ar dri phrif faes:

- Glanhau traethau
- Monitro
- Lleihau ysbwriel o'r tarddle

Gwaith wedi'i gwblhau:

- Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau glanhau traethau
- Sefydlwyd gorsaf fonitro ar y traeth
- Cwblhawyd nifer o sesiynau monitro gyda'r gymuned leol
- Lansio ymgyrch y gwelltyn olaf (i leihau nifer y gwellt plastig a ddefnyddir). Mwy na 10 busnes wedi arwyddo un ai i beidio defnyddio gwellt o gwbl neu i ddefnyddio rhai sy'n fiogdiraddadwy.
- Lansio bwrdd #2minbeachclean cyntaf gogledd Cymru. Y prosiect a gyfieithodd y bwrdd ac mae bwyty Dylan's ar y traeth cytuno i ddefnyddio'r bwrdd. Roeddent yn ei roi allan bob dydd gan sicrhau fod digon o fagiâu a ffyn codi sbwriel. Y syniad yw bod pobl yn treulio dau funud yn codi sbwriel ac wedyn yn anfon neges yn trydar am hyn.
- Trafodwyd ac edrychwyd ar nwyddau bioddiradadwy eraill.
- Cynhyrchu pecyn cymorth fydd yn crynhoi'r gwaith a wneir fel bod pentrefi/busnesau yn gallu cymryd rhan.

Trafodaeth grŵp:

- Mae prosiect yn Nimbych-y-Pysgod yn edrych ar becynnu abwyd pysotwyr mewn ffordd amgen
- Mae nifer o grwpiau lleol yn gwneud eu rhan i fynd i'r afael ag ysbwriel yn lleol

- Mae CGD yn cynnal digwyddiad glanhau traethau ledled Cymru yn mis Medi, mae hefyd yn gweithio gyda busnesau i geisio bod yn fwy gwyrdd
- Nodwyd fod gogledd Llŷn bellach yn gymharol lân ond mae cynydd wedi bod yn y bagiau sbwriel heb eu casglu e.e. bagiau ysbwriel ar draeth Porth Ysgo

4.7 Cod Morol

Eglurodd AH mai diben y cod morol oedd mynd i'r afael â'r broblem o gychod pleser yn tarfu ar famaliaid y môr.

Gwaith wedi'i gwblhau:

- Cod wedi ei lunio ar gyfer Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy
- Mae pob awdurdod lleol wedi mabwysiadu'r Cod
- Codau wedi eu dosbarthu drwy bob awdurdod lleol
- Codau wedi eu hyrwyddo

4.8 Codi ymwybyddiaeth am ymgysylltu â rhanddeiliaid

Eglurodd AH fod llawer o waith wedi ei roi i'r ddwy elfen yma, gan gynnwys:

- Ymweld ag ysgolion
- Arddangosfa ACA mewn sioeau
- Gwefan a chyfryngau cymdeithasol
- Cyflwyniadau
- Cyhoeddusrwydd (y wasg, erthyglau, radio)
- Sioe deithiol addysg forol gydag APCE
- Cydweithio
- Cyhoeddusrwydd ar draethau

5 Diweddariad Cyffredinol

Rhoddodd AH ddiweddariad cyffredinol ar faterion sy'n ymwneud â'r ACA:

5.1 Grŵp Llywio Rheolaeth MPA (Ardaloedd Morol Gwarchoddedig)

- Mae AH ar y grŵp yma ac yn gyswllt mewn perthynas a rheolaeth a materion ar lefel safle
- Cafwyd cyfarfodydd mwy cyson yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- Mae'r cyfarfod nesaf ym mis Mai
- Mae'r cyfarfod canlynol ym mis Hydref
- Mae'r grŵp wedi cynhyrchu Fframwaith Rheoli'r MPA a chynllun gweithredu cysylltiedig (mae AH wedi anfon dolen at y grŵp)

5.2 Cynllunio Morol

- Mae AH ar y Grŵp Cyfeirio Cynllunio Morol i Fudd-ddeiliaid er mwyn darparu cyswllt rhwng rheolwyr MPA a chynllunio morol
- Daeth y cynllun ymgynghori morol i ben ar 29 Mawrth 2018
- Cyflwynodd AH sylwadau

5.3 Grŵp Tasg a Gorffen Ysbwriel Llywodraeth Cymru

- Eglurodd AH ei bod ar y grŵp hwn ar gais y rhanddeiliaid
- Prosiect lefel Cymru

- Clywodd y grŵp am brosiect Cricieth ac roeddent yn awyddus i'w gyflwyno ar draws Cymru
- Roedd PLAS a'r prosiect sbwriel wedi eu cynnwys mewn cyflwyniad gan Croeso Cymru a roddwyd ledled Cymru.

5.4 Prosiect mynediad a hamdden

- Mae CNC yn arwain ar brosiect mynediad a hamdden fydd yn helpu hyrwyddo codau morol presennol a gwybodaeth drwy ddarparu llwyfan ar-lein.
- Mae gwefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol wedi'u creu ac rydym bellach yn fyw - Moroedd Gwylt Cymru
- Mae'n ymwneud â hyrwyddo'r hyn sydd gennym eisoes mewn ffordd gyson

Cam Gweithredu 1: AH i ail-anfon y dolenni at lwyfannau Moroedd Gwylt Cymru

5.5 Prosiect gweithgareddau anrheoledig CNC

- Mae CNC yn gweithredu prosiect sy'n edrych ar weithgareddau anrheoledig
- Yn dilyn gweithdy, cyfyngwyd y gweithgareddau i:
 - o Angori ac angorfeydd
 - o Pysgota
 - o Palu am abwyd a chasglu pethau byw gyda llaw
 - o Mynediad ar droed

5.6 Rhwydwaith MPA y DU

- Mae Swyddogion ACA o Gymru bellach yn mynychu gweithdai a thelegynadledau MPA y DU. Mae hyn wedi golygu gwell cydweithio ar draws y DU.

6 Ariannu a rheoli safle 2018 - 2021

Eglurodd AH fod y cymal ariannu diwethaf wedi dod i ben ym mis Mawrth 2018. Roedd yr hawliadau terfynol wedi'u cyflwyno a'r adroddiadau terfynol wedi'u cynhyrchu. Aeth AH ati i egluro'r sefyllfa gyda'r cymal ariannu presennol.

Cam Gweithredu 2: AH i anfon copi o'r adroddiad grant terfynol i'r grŵp

6.1 Ariannu craidd

- Mae cyfraniadau RAG (Grŵp yr Awdurdodau Perthnasol) i arian craidd 2018/19 wedi'u cadarnhau gan Gyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Dŵr Cymru a Thŷ'r Drindod
- Ni fydd CNC, Cyngor Ceredigion na Chyngor Powys yn cyfrannu arian craidd eleni

6.2 Arian grant

- Mae Grant Refeniw Sengl Llywodraeth Leol wedi'i gadarnhau
- Mae arian cynllun rheoli cynaliadwy wedi'i gadarnhau
- Mae cais terfynol wedi'i gyflwyno i'r gronfa tirweddau dan fygythiad. Caiff penderfyniad terfynol ei wneud yn mis Hydref 2018.

6.3 Prosiect - Tir a Môr Llŷn

Crynhodd AH brosiect Tir a Môr Llŷn a rhoddodd gyflwyniad byr.

- Fe'i hariennir drwy'r Gronfa Rheoli Cynaliadwy
- Prosiect tair blynedd
- Dan arweiniad Cyngor Gwynedd - AH ac Arwel Jones
- Prosiect dalgylch Tir / Môr
- Prif elfennau'r prosiect:
 - Creu coridorau cysylltedd arfordirol sy'n cysylltu â Llwybr Arfordir Cymru
 - Datblygu dolen fynediad gogledd / de ar y penrhyn mewn lle strategol er mwyn annog cyfleoedd hamdden pellach sy'n cyd-fynd â rheoli tirwedd yn ystyrlon
 - Peilota taliad model ffermio deilliannol ar y penrhyn (Ymddiriedolaeth Genedlaethol)
 - Canllawiau arfer gorau / ymwybyddiaeth / ymgysylltu â budd-ddeiliaid
 - Rheoli dalgylch er mwyn lleihau niwed i'r amgylchedd ehangach ar dir a môr (Afon Daron) - ymchwilio llefydd lle ceir cynnydd mewn maetholion
 - Gwell pridd, dŵr, plannu a mesurau cynefinoedd ar diroedd isel - gall rheoli pridd, biswail, a thail, yn ogystal ag amrywiaeth o fesurau plannu a rheoli cynefinoedd, ymdrin â'r holl bwysau niferus ar ein hecosystemau. Wrth wneud hynny, gellir darparu amrwiaeth eang o fuddion i reolwyr tir a'r gymdeithas - ansawdd dŵr, rheoli peryglon llifogydd a storffeydd carbon
 - Cydlynnu arfer rheoli pridd da drwy amaethu da a phori'n gynaliadwy ynghyd â phlannu gwrychoedd a choed sy'n arwain at welliannau mewn ansawdd a chyfaint dŵr, drwy reoli ffynhonell llygryddion a dyddodion (gan gynnwys maetholion o wrtaith a thail, dyddodion o ddŵr ffo, bacteria o dail a da byw, a chwynladdwyr o chwistrellu a chael gwared ar driniaeth) a gwella draeniad a lleihau dŵr ffo wyneb;
 - cynyddu cysylltedd rhwng cynefinoedd er budd peillyddion a gwella gwytnwch ein bioamrywiaeth;
 - Rheoli dalgylchoedd - y cam cyntaf fydd ymgysylltu â ffermwyr a thirfeddianwyr (wedi dechrau eisoes) yna samplu
- AH fydd yn arwain ar yr elfen forol (sy'n gysylltiedig â rheoli dalgylch)
 - Gwaelodlin / gofynion maetholion yr aberoedd
 - Ymgynulladau pysgod yn yr aberoedd
 - Prosiect dyfrgwn
 - Adfer cimychiaid cochion

6.4 Prosiect o'r Mynydd i'r Môr

Crynhodd AH y prosiect O'r Mynydd i'r Môr a rhoddodd gyflwyniad byr.

- Os yw'n llwyddiannus fe'i hariennir drwy'r Gronfa Tirwedd Dan Fygythiad
- Prosiect pum mlynedd
- Fe'i harweinig gan Rewilding Britain a'r Woodland Trust
- Prosiect dalgylch Tir / Môr

- Rhoi ystyriaeth i wella cynefinoedd a rhywogaethau a'r economi
- AH fydd yn arwain ar yr elfen forol
 - o Gwaelodlin / gofynion maetholion yr aberoedd
 - o Ymgynulladau pysgod yn yr aberoedd
 - o Prosiect dyfrgwn
 - o Cod Morol
 - o Prosiect Ysbwriel

6.5 Prosiect - Cynllun bioddiogelwch PLAS

Crynhodd AH y prosiect bioddiogelwch PLAS a rhoddodd gyflwyniad byr.

- Mae CNC wedi gwneud cais am arian EMFF i greu cynllun bioddiogelwch i PLAS er mwyn ymdrin â gwasgariad rhywogaethau anffroddorol
- Amserlenwyd y prosiect llawn i ddechrau ym mis Ebrill 2019 gyda pheth gwaith paratoadol yn digwydd eleni
- Byddant yn defnyddio PLAS fel safle peilot, yna os yw'n llwyddiannus fe'i defnyddir fel model ar gyfer gweddill Cymru

6.6 Prosiect - tarfu ar loi y morloi

Crynhodd AH y prosiect tarfu ar loi y morloi a rhoddodd gyflwyniad byr.

- Cododd y mater o darfu ar loi y morloi yng nghyfarfod blaenorol y Grŵp Ymgysylltu
- Cafwyd adroddiadau niferus am aelodau'r cyhoedd yn ceisio 'achub' lloi morloi, gan beri trallod i'r llo morlo ac weithiau arwain at ei farwolaeth
- Daeth AH hyn at sylw'r grŵp Wild Seas Wales a chanfu fod hyn yn broblem mewn sawl man ledled Cymru
- Cytunodd y grŵp Wild Seas Wales i fynd i'r afael â'r broblem ar lefel Cymru gyfan gydag un arwydd
- Mae Cyngor Ceredigion wedi cynhyrchu arwydd gyda neges gyffredinol y mae'r grŵp wedi cytuno fyddai'n addas
- Ar ôl gwneud mân newidiadu i'r arwydd, bydd ar gael i'w argraffu a'i osod
- Cytunwyd hefyd y byddai'r arwyddion yn cael eu gosod dros dro yn ystod y tymor magu. Teimai'r grŵp fod pobl yn gallu anwybyddu arwyddion y maent yn eu gweld am gyfnodau hirion

6.7 Prosiect - codi ymwybyddiaeth

Crynhodd AH y prosiect codi ymwybyddiaeth a rhoddodd gyflwyniad byr.

- Eglurodd AH y byddai gweithgareddau codi ymwybyddiaeth arferol PLAS yn parhau e.e. ymweliadau ysgolion, cyflwyniadau, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau
- Yn ogystal â'r rhaglen codi ymwybyddiaeth arferol, byddai AH yn gweithio ar:
 - o Rifyn 2 o O Dan y Don
 - o Pecyn addysg i ysgolion cynradd
 - o Llyfr i blant

7 Prosiect y Maelgwn

Eglurodd RS fod CNC yn bartneriaid mewn prosiect newydd yn edrych ar faelgwn yn nyfroedd Cymru.

- Credid mai dim on yn yr Ynysoedd Dedwydd y ceid y maelgwn ond maent wedi'u canfod yn nyfroedd Cymru, er credir fod eu niferoedd yn gostwng
- Prosiect tair blynedd CDL
- Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn digwydd ym Mae Ceredigion
- Tair swydd newydd, rhai yn Llundain a rhai yng Nghymru
- Mae SHED (clwb i rai dros 60) yn bartner ar y prosiect
- Bydd y prosiect yn casglu data hanesyddol, yn codi ymwybyddiaeth, yn plymio ac yn adnabod safleoedd ac yn defnyddio camerâu gyag abwyd arnynt
- Y partner arweiniol yw Cymdeithas Swoleg Sŵ Llundain
- Mae yna nifer o bartneriaid, gan gynnwys y Shark Trust, yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru a CNC
- Bydd y prosiect yn gweithio gyda chymunedau lleol a physgotwyr
- Mae cod ymarfer wedi'i gynhyrchu i ddangos i bobl sut i'w trin pe baent yn eu dal yn ddamweiniol

Cam Gweithredu 3: RS i roi copïau electronig i AH o'r holl ddeunyddiau ar faelgwn a gynhyrchwyd gan y prosiect

Cam Gweithredu 4: AH i anfon deunydd am faelgwn ymlaen i'r Grŵp Cyswllt

8 Adroddiad lefel safle CNC

Rhoddodd RS ddiweddariad ar gynnydd adroddiadau lefel safle CNC. Cynhyrchwyd nifer o adroddiadau lefel safle dangosol. Eglurodd AH ei bod wedi anfon dolenni at y Grŵp Cyswllt. Mae'r adroddiadau hefyd ar gael ar wefan CNC. Eglurodd RS y byddai CNC yn rhoi prosiect newydd ar waith i wella'r adroddiadau lefel safle eleni.

9 Diweddariad monitro CNC

Rhoddodd RS grynodedb o waith monitro CNC yn PLAS ar gyfer 2018/19:

9.1 Monitro Rhynglanwol yn PLAS

- Arolwg arferol o'r isgraig ym Mhorth Oer - rhan o rwydwaith ehangach ar draws Cymru, dim byd anghyffredin i'w adrodd
- Arolwg *pectenogammarus* ym Mhwllheli - mae'r gammarid yn dal ei dir.
- *Sabellaria* yn Llandanwg ac i'r gorllewin o Afon Dwyfor - eithaf sefydlog gyda lefelau tywod sy'n newid yn feunyddiol yn effeithio'r dosbarthiad
- Samplu dyddodion yn aber afon Dyfi - samplau'n cael eu profi ar hyn o bryd, dim byd anghyffredin i'w adrodd.
- Diweddariad ar y *Gracilaria vermiculophylla* - alga coch anfrodorol sy'n meddiannu aber afon Dwyrdd. Wedi gweithio gyda thîm CNC i nodi'r llefydd mae'r alga hwn yn wybyddus eisoes. Mae angen mwy o waith ar ei raddfa lawn gyfredol, graddfa bosib y gwasgariad yn y dyfodol, a lefelau'r effaith (dyddodiad rhynglanwol a morfeydd heli).
- Mae adroddiadau Erthygl 17 wedi cymryd gwybodaeth o Asesiadau Safle Dangosol ar gyfer PLAS (ag ACA eraill).

9.2 Monitro Islanwol yn PLAS

- Ni wnaed unrhyw arolygon plymio eleni yn PLAS

- Disgwylir i arolygon sganio ochr y gwllâu *modiolus* ar ochr ogleddol Llŷn gael eu cynnal y mis nesaf

9.3 Arolygon mamaliaid môr yn PLAS

- Hydref 2017 - cyfrifiad genedigaethau lloi morloi llwyd yng Ngogledd Cymru (gan gynnwys PLAS). Cafodd dwywaith gymaint o loi eu geni ers y cyfrifiad diwethaf (2004) a chaed cynnydd sylweddol yn nosbarthiad (nifer) y safleoedd magu.
- Ni chafodd morfilod eu monitro drwy arian CNC, er bu i CNC ddarparu cymorth cychod ar gyfer yr arolygon, ni fuasant i gyd yn PLAS o reidrwydd ond mae'n debyg y byddent wedi bod mewn rhai o ddyfroedd PLAS.

9.4 Arolygon Adar

- Cynhaliwyd cyfrifiad o adar y môr yng Ngharreg y Llam ym mis Mehefin

10 Materion o bryder neu o ddiddordeb

10.1 Bill Miller-Jones

- Mae lefelau dychrynlyd o PCB yn ein morfilod (ffynhonnell Rod Penrose o'r rhaglen Marine Strandings). Mae'r lefelau mewn dolffiniaid trwynbwl mor uchel fel ei fod yn effeithio atgenhedlu. Mae'r llo cyntaf yn tueddu i farw a'r lloi canlynol yn byw. Canfuwyd problem gyda ffatri yn ne Cymru a PCB mewn safleoedd tirlenwi.
- Gwelodd BMJ gwch Prifysgol Cymru, y Prince Madog, ar hyd arfordir gogledd Llŷn yn gyson dros yr haf. Eglurodd RS eu bod yn cynnal arolygon o'r cregyn bylchog (sgalop).

Cam Gweithredu 5: *AH i roi PCB mewn morfilod ar raglen cyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt.*

Cam Gweithredu 6: *RS i weld pa wybodaeth sydd gan CNC ar PCB a morfilod*

10.2 Rhys Jones

- Mae gennym Swyddog Bioamrywiaeth newydd, Lea Connelly
- Mae swydd olaf warden Cyngor Gwynedd bellach wedi mynd
- Gwelwyd tiwna asgell las oddi ar Ynys Enlli
- Cofnodion o bysgod anghyffredin eleni e.e. chwyddbysgodyn a'r morgi trwynfain

10.3 Rowland Sharp

- Mae CNC yn wrthi'n cael ei ad-drefnu. Bydd gan hyn oblygiadau i'r staff morol.

Cam Gweithredu 7: *RS i gadw'r Grŵp Cyswllt yn hysbys am ad-drefnu CNC*

10.4 Alison Hargrave

- Mae AH wedi bod yn edrych ar aelodaeth y Grŵp Cyswllt. Holodd y grŵp a ellid ystyried y sawl a ganlyn:

- Robert Parkinson o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Alison Kinsey o Grŵp Gweithredu Lleol ar Bysgodfeydd (FLAG) Bae Ceredigion
- Neil Starkey o Gyngor Cymuned Aberdyfi
- Cytunodd y grŵp y dylid gwahodd y bobl uchod i fod yn aelodau o'r Grŵp Cyswllt
- Crybwyllodd RS enw Tom Hughes o siop genwair Pwllheli ac Aeron Williams o'r Bermo
- Nododd AH ei bod wedi cysylltu â Biosffer Dyfi a'i bod bellach yn rhan o'r grŵp Biosffer
- Soniodd OW y byddai'n syniad da rhoi cylch gorchwyl y Grŵp Cyswllt ar raglen y cyfarfod nesaf

Cam Gweithredu 8: AH i gysylltu â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, CB FLAG a Chyngor Cymuned Aberdyfi i'w gwahodd i fod yn rhan o'r Grŵp Cyswllt

Cam Gweithredu 9: RS i anfon manylion cyswllt Tom Hughes (siop genwair Pwllheli) i AH

Cam Gweithredu 10: AH i roi cylch gorchwyl y Grŵp Cyswllt ar raglen y cyfarfod nesaf

11 Dyddiad y cyfarfod nesaf

I'w gadarnhau.

Cam Gweithredu 11: AH i drefnu cyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt.

12 Tabl o'r Camau Gweithredu

Rhif y Weithred	Gweithred	Perchennog
1	AH i ail-anfon y dolenni at lwyfannau Moroedd Gwyllt Cymru	Alison Hargrave
2	AH i anfon copi o'r adroddiad grant terfynol i'r grŵp	Alison Hargrave
3	RS i roi copiâu electronig i AH o'r holl ddeunyddiau ar faelgwn a gynhyrchwyd gan y prosiect	Rowland Sharp
4	AH i anfon deunydd am faelgwn ymlaen i'r Grŵp Cyswllt	Alison Hargrave
5	AH i roi PCB mewn morfilod ar raglen cyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt.	Alison Hargrave
6	RS i weld pa wybodaeth sydd gan CNC ar PCB a morfilod	Rowland Sharp:
7	RS i gadw'r Grŵp Cyswllt yn hysbys am ad-drefnu CNC	Rowland Sharp:
8	AH i gysylltu â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, CB FLAG a Chyngor Cymuned Aberdyfi i'w gwahodd i fod yn rhan o'r Grŵp Cyswllt	Alison Hargrave

Rhif y Weithred	Gweithred	Perchennog
9	RS i anfon manylion cyswllt Tom Hughes (siop genwair Pwllheli) i AH	Rowland Sharp:
10	AH i roi cylch gorchwyl y Grŵp Cyswllt ar raglen y cyfarfod nesaf	Alison Hargrave
11	AH i drefnu cyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt.	Alison Hargrave